

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Ymchwiliad dilynol i rianta yng Nghymru a
rhei'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith

Ionawr 2011



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149

Ffacs: 029 2089 8021

e-bost: Children.&YoungPeopleCommittee@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Ymchwiliad dilynol i rianta yng Nghymru a
rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith

Ionawr 2011



Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Penodwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru ac adrodd yn ôl ar y materion hynny.

Yn bennaf, gall y Pwyllgor archwilio gwariant, gweinyddiad a pholisi Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig ac ystyried adroddiadau Comisiynydd Plant Cymru.

Yn aml, nid yw oedolion yn cymryd barn plant a phobl ifanc o ddifrif. Fel gwleidyddion, ein cyfrifoldeb ni yw annog plant a phobl ifanc i leisio eu barn ac i ninnau wrando arnynt. Sefydlwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i helpu i wneud hynny.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 16 Hydref 2007 pan gafodd cynnig i'w sefydlu ei gymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn. Bydd yn bodoli drwy gydol y Trydydd Cynulliad. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig yn Rheol Sefydlog 21. Mae'r rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org.

Aelodau Cyfredol y Pwyllgor



**Helen Mary Jones
(Cadeirydd)**
Llanelli
Plaid Cymru



Eleanor Burnham
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol
Cymru



Sandy Mewies
Delyn
Llafur



Jonathan Morgan
Gogledd Caerdydd
Plaid Geidwadol Cymru



Joyce Watson
Canolbarth a Gorllewin
Cymru
Llafur

Roedd yr Aelod isod hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Lynne Neagle
Tor-faen
Llafur

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion y Pwyllgor	6
Cefndir	8
Rhianta fel Blaenoriaeth Strategol	9
Hyrwyddwr Rhianta.....	10
Gweithio ar y cyd	11
Cydgysylltu cymorth rhianta'n strategol	11
Y strwythur adrodd.....	13
Teuluoedd yn Gyntaf	14
Rhannu gwybodaeth	14
Rhannu'r arferion gorau.....	17
Cymorth i deuluoedd ag anghenion gwahanol	20
Cymorth i dadau.....	20
Cymorth i deuluoedd sydd â phlant neu rieni anabl	22
Cymorth i deidiau a neiniau	23
Cymorth i holl rieni	24
Cymorth gydag ethos Cymreig.....	24
Stigma.....	24
Cyllid ar gyfer ymyrryd yn gynnar	25
Rhianta cadarnhaol	27
Tystion	29
Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig	30

Rhagair y Cadeirydd

Credaf mai bod yn rhiant yw un o'r swyddi anoddaf, ond sy'n dod â'r boddhad mwyaf. Mewn unrhyw swydd arall mewn bywyd, mae'n rhesymol disgwyl rhywfaint o gefnogaeth a hyfforddiant. Fodd bynnag, yn rhy aml fel rhieni, rhaid inni oresgyn y rhwystrau sy'n ein hwynebu ar ein pennau ein hunain. I rai rhieni—efallai'r rhai nad oes ganddynt deulu neu ffrindiau yn agos, neu'r rhai sydd â phroblemau ychwanegol i ddygydd â hwy—gall ychydig o gefnogaeth a chymorth ar yr adeg iawn wneud gwahaniaeth mawr.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ac fel rhiant, rwyf yn croesawu Cynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2005 ac sy'n nodi cefnogaeth y Llywodraeth ar gyfer rhieni. Ym mis Mai 2009, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad cyntaf ar rianta a rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith yng Nghymru. Daeth yr adroddiad hwnnw i'r casgliad bod rhai o'r 10 pwynt yn y cynllun gweithredu wedi'u rhoi ar waith, ond bod y broses o weithredu rhai o'r pwyntiau eraill yn anghyson. Nid oedd cynnydd o gwbl ar rai o'r pwyntiau. Wrth inni ddod at ddiwedd y trydydd Cynulliad, penderfynodd y Pwyllgor ystyried y cynnydd a wnaed ers yr adroddiad cyntaf hwnnw ac archwilio a yw cymorth Llywodraeth Cymru i rieni yn ddigonol i sicrhau'r canlyniadau gorau i bob plentyn yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at arfer da, a rhai meysydd sydd dal angen mwy o waith. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael ymateb Llywodraeth Cymru i'r 10 argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad hwn, ac mae'n galw ar Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid cyflenwi i wneud popeth o fewn eu gallu i flaenoriaethu cymorth i rieni ac i hyrwyddo rhianta cadarnhaol a di-drais yn ystod yr anawsterau economaidd presennol ac yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn estyn ei ddiolch i'r holl dystion a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad dilynol hwn. Rydym, fel arfer, yn ddiolchgar iddynt am rannu eu hamser a'u harbenigedd â ni mewn modd mor hael.

Helen Mary Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Cyfeiriwch at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad er mwyn gweld y dystiolaeth ategol a'r canlyniadau:

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi awdurdodau lleol i greu hyrwyddwyr rhianta gwleidyddol, gan ddarparu canllawiau a hyfforddiant lle mae angen hynny. (Tudalen 11)

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau nad yw ei menter Teuluoedd yn Gyntaf yn diogelu'n anfwriadol y myth mai dim ond rhieni tlawd sydd â phroblemau rhianta ac y gellir gadael i'r holl rieni o gefndiroedd eraill fagu'u plant heb yr angen am gymorth nac ymyrraeth. (Tudalen 13)

Argymhelliad 3. Mae'r pwyllgor yn argymhell bod y prosiect cenedlaethol ar rannu gwybodaeth yn rhoi blaenoriaeth i ddatrys y pryderon ynghylch cydsyniad gwybodus er mwyn sicrhau ymrwymiad yr holl bartneriaid i rannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol. Mae'r Pwyllgor yn argymhell ymhellach bod Llywodraeth Cymru'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd a wnaed o ran rhoi'r prosiect cenedlaethol ar rannu gwybodaeth ar waith ym mis Ebrill 2010. (Tudalen 16)

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y fforwm rhanddeiliaid aml-asiantaeth yn cyhoeddi adroddiadau cynnydd ar ei waith er mwyn olrhain yr ymrwymiad a'r camau y mae sefydliadau'n eu cymryd i rannu gwybodaeth. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd roi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ebrill 2012, am ei chynnydd o ran cyflwyno achos busnes am system TG sy'n caniatáu rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. (Tudalen 17)

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cydweithio â Chanolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru er mwyn datblygu set safonol o fesurau i werthuso llwyddiant rhaglenni rhianta ar draws Cymru. Dylid defnyddio mesurau o'r fath i ganfod yr

arferion gorau ac i nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer canlyniadau gwariant yn y maes hwn. Ar ôl cytuno ar y canlyniadau dylai cyllidebu ar gyfer y dyfodol ddibynnu ar fodloni canlyniadau o'r fath.

(Tudalen 19)

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cynnwys, mewn canllawiau cymorth rhianta yn y dyfodol, y gofyniad i staff gynnwys ymgysylltiad â thadau fel rhan o'u busnes craidd.

(Tudalen 22)

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod mesurau i fonitro effeithiolrwydd cymorth rhianta i deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan anabledd yn cael eu cynnwys yn y set o fesurau safonol a ddefnyddir i ganfod arfer da, fel y nodwyd yn Argymhelliad 3 yr adroddiad hwn

(Tudalen 23)

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cynnwys, mewn canllawiau yn y dyfodol, y gofyniad y dylai cymorth rhianta fod ar gael i deidiau a neiniau sy'n chwarae rhan sylweddol neu'r brif ran o ran gofalu am eu hwyron a'u hwyresau, a'i fod wedi'i deilwra ar gyfer eu hanghenion.

(Tudalen 23)

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod cymorth rhianta sydd ar gael yn fyd-eang, ac sy'n cael ei gyflenwi gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, yn cael ei gydnabod fel gwasanaeth hanfodol i deuluoedd a allai, fel arall, gael eu hesgyn i fyny haenau angen. Gall ymyrraeth a chymorth cynnar leihau'r angen am gymorth drud yn uwch i fyny'r haenau ac, os yw'n hygyrch i holl rieni, bydd yn lleihau'r stigma ac yn gwneud rhyw gyfraniad tuag at greu cymorth gydag ethos Cymru gyfan. Dylai canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnwys disgwyliad clir bod ymyrraeth gynnar yn cael ei ddarparu cyn gynted â phosibl ar gyfer teuluoedd sydd mewn perygl o esgyn i fyny haenau angen.

(Tudalen 26)

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â theuluoedd yn ymwybodol o'r cymorth rhianta sydd ar gael, a'u bod yn deall manteision rhianta cadarnhaol a hawl plentyn i gael ei ddiogelu rhag pob math o ddisgyblaeth dreisgar. (Tudalen 28)

Cefndir

1. Ym mis Rhagfyr 2005, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Rianta a'i Chynllun Gweithredu Rhianta. Daeth y cynllun tair blynedd i ben ym mis Mawrth 2008.
2. Ym mis Mai 2009, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ei adroddiad 'Rhianta yng Nghymru a'r Cynllun Gweithredu Rhianta.' Roedd yr adroddiad yn ymchwilio i'r modd y rhoddir y cynllun ar waith a'r angen am ragor o gymorth ar gyfer rhianta yng Nghymru. Gwnaeth yr adroddiad un ar ddeg o argymhellion, a dderbyniwyd i gyd, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru.
3. Ar adeg adroddiad cyntaf y Pwyllgor ar rianta ym mis Mai 2009, roedd camau yn parhau i fod heb eu cymryd o'r Cynllun Gweithredu Rhianta. Oherwydd hyn, a newidiadau arfaethedig i'r ffordd y caiff cymorth rhianta ei roi ar waith yng Nghymru, lansiodd y Pwyllgor adolygiad dilynol o rianta yng Nghymru a'r Cynllun Gweithredu Rhianta. Ym mis Awst 2010, galwodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am dystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad dilynol. Cynhaliwyd tair sesiwn dystiolaeth ffurfiol rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2010.

Rhianta fel Blaenoriaeth Strategol

4. Yn ei adroddiad yn 2009, nododd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc mai 'bod yn rhiant yw'r gwaith anoddaf ond y mwyaf pleserus. Caiff ddylanwad dwfn ar bob plentyn ac mae'n para oes.'¹ Roedd Strategaeth Rianta Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2005, yn cydnabod nad yw rhianta'n waith a wneir mewn unigedd. Mae plant a phobl ifanc yn rhan o'r gymuned yn ehangach a dylid cymeradwyo'r ffaith i Lywodraeth Cymru fynd ati yn 2005 i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar rieni wrth fagu'r genhedlaeth nesaf.

5. Bydd plant a phobl ifanc sy'n teimlo eu bod yn cael cymorth wrth iddynt ddatblygu, ac sy'n dod yn ddinasyddion gweithredol pan fyddant yn oedolion, o fudd i'r gymdeithas gyfan. Oherwydd hyn, mae'n rhesymol y dylem ni fel cymdeithas gefnogi rhieni gyda'u tasg.

6. Ochr yn ochr â'i Strategaeth Rianta, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Gweithredu Rhianta, cynllun tair blynedd a oedd i ddod i ben ym mis Mawrth 2008. Fodd bynnag, ni chyhoeddwyd rhagor o strategaethau rhianta na chynlluniau gweithredu gan Lywodraeth Cymru hyd yma. Dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Blant wrth y Pwyllgor nad oedd angen Cynllun Gweithredu olynol ar Lywodraeth Cymru oherwydd:

'rydym wedi adeiladu ymhellach ar sylfeini'r cynllun gweithredu ac adroddiad y Pwyllgor ac wedi datblygu ymagwedd newydd ac ehangach o lawer at gymorth i deuluoedd, fel yr amlygwyd gan y fenter Teuluoedd yn Gyntaf'²

7. Nododd y Dirprwy Weinidog dros Blant ei weledigaeth ar gyfer canlyniadau Teuluoedd yn Gyntaf, rhaglen gymorth newydd Llywodraeth Cymru i rieni. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

'The idea of Families First is that, for the first time as far as I am aware, anywhere in Europe, we will attempt to construct a completely holistic support network around each individual family. We will prioritise those families whose children fall within the poverty statistics, but we will also move outwards from there towards families who may have higher end needs

¹ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 'Rhianta yng Nghymru a rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith' Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Mai 2009

² CYP(3)-13-10 : Papur 1

and those with less needs too. The ambition would be to create a universal family support service that sees children and their parents in the context of a family.’³

8. Bydd y rhaglen gymorth newydd yn adeiladu ar yr ymyraethau mwy llwyddiannus a grëwyd ar draws Cymru.’⁴

Hyrwyddwr Rhianta

9. Yn ei adroddiad yn 2009, gwnaeth y Pwyllgor argymhelliad bod Llywodraeth Cymru’n penodi Hyrwyddwr Rhianta. Er gwaethaf derbyn yr argymhelliad yn y lle cyntaf, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor wedi hynny na fydd Llywodraeth Cymru’n gweithredu ar yr argymhelliad hwnnw. Eglurodd y Dirprwy Weinidog y byddai’r ymagwedd Teuluoedd yn Gyntaf yn adeiladu ar yr hyn sydd gennym eisoes yn hytrach na chreu strwythur newydd, os dymunwch, o amgylch hyrwyddwr rhianta.’⁵

10. Taerodd Plant yng Nghymru y byddai penodi Hyrwyddwr Rhianta’n gweithredu fel canolbwynt a mwy.’⁶ Rhoesant enghraifft o’r cymorth a gynigir i amrywiaeth eang o deuluoedd â phobl ifanc yn eu harddegau, a oedd y tu hwnt i afael ymwelwyr iechyd a’r cymorth y maent hwy’n ei gynnig. Teimlai Plant yng Nghymru y byddai’r teuluoedd hynny â phlant hŷn wedi elwa o gael Hyrwyddwr Rhianta a fyddai’n llenwi’r bwlch hwnnw, ac y gallai teuluoedd uniaethu ag ef/hi, a theimlo ei fod/bod yn siarad ar eu rhan.’⁷

11. Gwnaeth Joyce Watson AC, sy’n Aelod o’r Pwyllgor, awgrym i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gallai hyrwyddwr gwleidyddol ym mhob un o’r 22 awdurdod lleol weithredu er mwyn sicrhau bod rhianta da’n cael ei gymryd o ddifrif, ei fonitro ac o bosibl, ei gyllido gan awdurdodau lleol nawr ac yn y dyfodol. Ni ddylai hyrwyddwr rhianta a enwebwyd yn lleol wanháu arweinyddiaeth y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, na’r ysgolion lleol, ond dylai, yn hytrach, weithredu fel hyrwyddwr ar gyfer gwybodaeth a monitro cymorth rhianta ymysg cyfoedion mewn awdurdodau lleol.

³ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 7

⁴ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 10

⁵ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 14

⁶ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 101

⁷ Ibid

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi awdurdodau lleol i greu hyrwyddwyr rhianta gwleidyddol, gan ddarparu canllawiau a hyfforddiant lle mae angen hynny.

Gweithio ar y cyd

12. I'r rhai hynny sy'n darparu cymorth rhianta, teimlai'r Dirprwy Weinidog,

'the imperative now is that they must not duplicate; they must work entirely together, they must deliver together and build themselves around the family. Apart from anything else, speaking in budgetary terms, it will be the only way in which we can construct anything sensible and deliver.'⁸

13. Mae'r Pwyllgor wedi adrodd yn flaenorol ar gyllidebu ar gyfer plant fel ffordd o fonitro canlyniadau gwariant ar blant a phobl ifanc, a chanfod dyblygu ariannol ar gyfer canlyniadau penodol. Sicrhau canlyniadau gydag adnoddau cyfyngedig fydd flaenaf ym meddyliau llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod pan fydd cyllidebau'n llawer llai. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cydnabyddiaeth y Dirprwy Weinidog nad yw dyblygu naill ai'n synhwyrol nac yn gost effeithiol, ac mae'n aros yn eiddgar am ragor o ddatblygiadau o ran gweithredu cyllidebu ar gyfer plant.

Cydgysylltu cymorth rhianta'n strategol

14. Dywedodd Tony Ivens, Swyddog Datblygu Tadolaeth, Plant yng Nghymru, wrth y Pwyllgor y byddai Strategaeth Rianta newydd yn gwella diben Teuluoedd yn Gyntaf. Pan ofynnwyd iddo a ddylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth rianta newydd i Gymru, dyma oedd ei ymateb:

'I think the answer ... is an unequivocal 'yes'. I think that it would support the notion that Families First is about... how the whole thing is integrated, how all the different strands are pulled together, how we capture best practice, and how we avoid independent local authorities going their own way and

⁸ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 37

ploughing their own furrow with this work. We feel that a good parenting strategy would overcome those difficulties.’⁹

15. Teimlai John Sayce, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Barnardo’s Cymru hefyd fod y Strategaeth Rianta a’r Cynllun Gweithredu Rhianta’n gadarnhaol:

‘One of the useful things when we had the parenting action plan was that we were meeting regularly. We would have six-monthly reviews of where we were getting to. I would say that the first parenting action plan was quite modest, but it was a good start. It tended to focus people’s minds...’¹⁰

16. Er i dystion ddweud wrth y Pwyllgor bod angen strategaeth rianta newydd er mwyn integreiddio’r gwahanol haenau, polisïau ac arferion ynghyd, gwnaeth y Dirprwy Weinidog yn glir bod yr ymagwedd Teuluoedd yn Gyntaf wedi mynd y tu hwnt i’r strategaeth rianta.

17. Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor hefyd y byddai’r ymagwedd ar y cyd a ddarparwyd gan y strategaeth rianta flaenorol yn cael ei derbyn gan Weithgor Teuluoedd. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

‘Ar hyn o bryd mae Gweithgor Teuluoedd a gyfansoddwyd yn fras ac sy’n atebol i’r Bwrdd Rhaglen Tlodi Plant, yn cael ei sefydlu ar lefel swyddogol i hyrwyddo cydgysylltu pellach o ran cymorth i deuluoedd rhwng adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru.’¹¹

18. Dywedodd Martin Swain, Pennaeth Cangen Rhaglenni Plant a Theuluoedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrth y Pwyllgor mai nod y grŵp yw cael rhyngwyneb rhwng yr adrannau a’n partneriaid cyflenwi,¹² ond nid oedd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Barnardo’s Cymru yn ymwybodol o waith y grŵp hwnnw¹³ ym mis Tachwedd 2010. Mae’n rhaid mynd i’r afael â’r datgysylltiad amlwg hwn rhwng Llywodraeth Cymru a’r sector gwirfoddol er mwyn gyrru cyfeiriad strategol cymorth rhianta yng Nghymru yn ei flaen.

⁹ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 107

¹⁰ ROP, 2 Tachwedd 2010, paragraff 19

¹¹ CYP(3)-13-10 : Papur 1

¹² ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 30

¹³ ROP, 2 Tachwedd 2010, paragraff 19

Y strwythur adrodd

19. Er mwyn i bob teulu allu cael mynediad at gymorth rhianta heb stigma, mae'n bwysig cydnabod nad yw tlodi'n cyd-fynd â rhianta gwael. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym;

'The child poverty strategy and the concentration on parents as a route out of poverty are to be welcomed, because many of the parents with the poorest incomes also have the poorest outcomes for their children. However, we know that it is not income based.'¹⁴

20. Fodd bynnag, mae'r Gweithgor Teuluoedd yn atebol i'r Bwrdd Rhaglen Tlodi Plant, ac mae'n creu cyswllt clir rhwng cymorth rhianta a thlodi. Caiff stigma ei drafod mewn mwy o fanylder yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, ond mae'r Pwyllgor yn pryderu gan bod y brif rôl o gydgysylltu ar gyfer cymorth rhianta yn dod mor glir o dan y rhaglen tlodi plant, mae'n creu stigma a fydd yn rhwystr i rieni o gefndiroedd demograffig eraill geisio cymorth.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau nad yw ei menter Teuluoedd yn Gyntaf yn diogelu'n anfwriadol y myth mai dim ond rhieni tlawd sydd â phroblemau rhianta ac y gellir gadael i'r holl rieni o gefndiroedd eraill fagu'u plant heb yr angen am gymorth nac ymyrraeth.

¹⁴ ROP, 2 Tachwedd 2010, paragraff 67

Teuluoedd yn Gyntaf

21. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymgais y Dirprwy Weinidog i;

'construct a completely holistic support network around each family'¹⁵ that will seek to ensure that 'the heavy lifting is done by public agencies or professionals in the field, and that we are not expecting families to do the heavy lifting; in other words, the burden of complexity is taken by the professional and not by the family.'¹⁶

22. Mae llwyddiant yr ymagwedd hon yn dibynnu ar i bob partner weithio ar y cyd a dileu hen feddylfryd seilo.¹⁷ Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor fod Dechrau'n Deg wedi cychwyn y broses honno a bod dau awdurdod yn gweithredu fel arloeswyr, gan geisio creu'r rhwydwaith cymorth hollol integredig hwnnw¹⁸ sy'n ganolbwynt i'r ymagwedd hon.

Rhannu gwybodaeth

23. Mae rhannu gwybodaeth yn ganolog i'r cydsyniad o dîm o amgylch y teulu a chydweithio. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor na fydd Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio heb rannu gwybodaeth.¹⁹ Fodd bynnag, mae angen goresgyn rhwystrau sylweddol i rannu gwybodaeth llwyddiannus.

24. Disgrifiodd Barnardo's Cymru rannu gwybodaeth fel problem fawr sy'n parhau.²⁰ Gofynnir i deuluoedd lenwi nifer o ffurflenni, a'u llofnodi er mwyn caniatáu i weithwyr proffesiynol rannu gwybodaeth. Mae hyn yn aneffeithlon ar ei orau a gall achosi anawsterau gwirioneddol i'r teuluoedd hynny sydd ag anghenion cymhleth. Ond dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor y dylai rhieni a gofalwyr barhau i lofnodi'r ffurflenni cydsyniad niferus oherwydd y mater o;

'informed consent. Ideally we would like the most efficient and streamlined process possible for parents and carers to sign

¹⁵ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 7

¹⁶ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 37

¹⁷ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 21

¹⁸ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 12

¹⁹ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 43

²⁰ ROP, 2 Tachwedd 2010, paragraff 23

their consent. However, things can only be done if consent is given in each instance in an informed way. There is a trade-off between the danger of confusion or information overload against the advantages of a streamlined and efficient process of consent.’²¹

25. Fodd bynnag, dywedodd Tania Hayward, Cydgysylltydd Rhianta, Awdurdod Lleol Blaenau Gwent, wrth y Pwyllgor fod rhannu gwybodaeth gyda chydysyniad gwybodus yn bosibl. Dywedodd;

‘We get quite a lot of resistance from professional agencies, which is sometimes to the detriment of the families...The CAF [Common Assessment Framework] and the team-around-the-child model have now been implemented and the family sign one consent form, consenting to the sharing of historic and current information. The process of sitting as a multi-agency panel, which includes the police and social services, is explained to them. Therefore, they are quite aware of the situation: they give their consent once and fill out one assessment. When families work with lots of different agencies, they fill out lots of different assessments. If they have complex needs, it is particularly difficult for them to have to relive it, whereas the beauty of the team-around-the-child model is that there is one assessment, one consent and one-team-around-the-child is implemented, so that all the agencies are working together.’²²

26. Cadarnhaodd Shelly Davies, Rheolwr Partneriaeth, Awdurdod Lleol Powys fod rhannu gwybodaeth yn digwydd ym Mhowys hefyd, er ychwanegodd;

‘we still get the odd challenging occasion. There are still issues around training for staff who have historically worked in a certain way, and it is a matter of overcoming barriers for individual members of staff. Information technology systems are a big barrier that we have not solved, as regards sharing our electronic information with others. The protocols and

²¹ ROP, 16 Tachwedd 2010, paragraff 135

²² ROP, 16 Tachwedd 2010, paragraff 138

systems are there, but barriers exist with regard to IT and the odd individual who needs some extra training.²³

27. Mae'r Pwyllgor wedi adrodd ar y problemau a wynebwr wrth geisio rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn y gorffennol. Canfu adroddiad y Pwyllgor ar y trefniadau ar gyfer rhoi plant mewn gofal, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2010, rwystrau systemig a rhwystrau agweddol i rannu gwybodaeth ac mae'r Pwyllgor yn siomedig bod problemau tebyg yn parhau.

28. Dywedodd Martin Swain, Pennaeth Cangen Rhaglenni Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru, wrth y Pwyllgor fod popeth yn eu holl waith hwy hyd yma yn deillio o'r ffaith oni fyddwch yn rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol, ni fydd hyn yn gweithio...Rydym yn rhedeg prosiect cenedlaethol ar rannu gwybodaeth neu rannu gwybodaeth bersonol'.²⁴

Mae'r pwyllgor yn argymhell bod y prosiect cenedlaethol ar rannu gwybodaeth yn rhoi blaenoriaeth i ddatrys y pryderon ynghylch cydsyniad gwybodus er mwyn sicrhau ymrwymiad yr holl bartneriaid i rannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol. Mae'r Pwyllgor yn argymhell ymhellach bod Llywodraeth Cymru'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd a wnaed o ran rhoi'r prosiect cenedlaethol ar rannu gwybodaeth ar waith ym mis Ebrill 2010.

29. Roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod bod angen i systemau TG fod ar waith er mwyn caniatáu rhannu gwybodaeth, a bod angen i unigolion fod wedi ymrwymo i'r ymagwedd newydd. Dywedodd wrth y Pwyllgor;

'We have given ourselves a deadline of, I think, April 2012 to get a business case together to make sure that we have the proper IT structure in place to make this deliverable everywhere. There is a multi-agency national stakeholder forum and, apart from anything else, at the senior level, that is trying to track the commitment to make sure that these sorts of things happen. There are huge issues, as some organisations, particularly the larger ones like the NHS, are

²³ ROP, 16 Tachwedd 2010, paragraff 151

²⁴ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 42

used to doing things the way they have always done them, as well as to do with how they interact with other teams.’²⁵

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y fforwm rhanddeiliaid aml-asiantaeth yn cyhoeddi adroddiadau cynnydd ar ei waith er mwyn olrhain yr ymrwymiad a'r camau y mae sefydliadau'n eu cymryd i rannu gwybodaeth. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd roi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ebrill 2012, am ei chynnydd o ran cyflwyno achos busnes am system TG sy'n caniatáu rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau.

Rhannu'r arferion gorau

30. Rhannodd Plant yng Nghymru eu pryderon gyda'r Pwyllgor;

‘there are some very good pieces of work, and it is important that we say that, but there are often local pieces of work that are not shared, or if they are shared they are shared in a very ad-hock way so that people do not get the opportunity to learn from what is often very good.’²⁶

31. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog yr her sy'n bodoli o ran dal yr arferion gorau a'u rhannu. Dywedodd wrth y Pwyllgor;

‘In my travels up and down Wales, I have found that one thing is very clear: there is somewhere, in some part of Wales, somebody who has solved almost any problem. For all the multiple problems faced in building an integrated, holistic, support network around the family, there is a part of Wales somewhere where someone has cracked a part of it. The challenge is to make sure that we bring that together.’²⁷

32. Mae rhagor o waith i'w wneud er mwyn bodloni'r holl bartneriaid bod yr arfer gorau'n cael ei ddal yn systematig, ond er mwyn rhannu'r arfer gorau'n llwyddiannus mae angen ei ganfod yn gyntaf. Bu tystion o Barnardo's Cymru, Y Blynyddoedd Rhyfeddol a Phlant yng Nghymru yn dadlau dros roi mesurau safonol o lwyddiant i'r holl raglenni rhianta er mwyn caniatáu gwneud cymariaethau ystyrlon o'u llwyddiant. Eglurodd Barnardo's Cymru;

²⁵ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 41

²⁶ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 97

²⁷ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 11

‘All programmes should use standardised measures. So, if you are working on children’s behaviour, you should use such and such a measure, so that we can measure across and say, ‘why is it that in Flintshire they can get a much bigger effect than the programme being delivered in Cardiff?’ So, if you are working on parental self-esteem, you would use this one common outcome. You can use as many measures as you like, but we would say that this or that would be the measure to use to do cross-comparisons. That would be very cheap; I cannot see any cost at all...We do it in education; we call them GCSE’s, so that we can compare the results for Denbigh with those for Pembrokeshire.’²⁸

33. Mae rhaglen y Blynyddoedd Rhyfeddol wedi casglu tystiolaeth mewn perthynas ag effeithiolrwydd y rhaglen. Mae’r ymagwedd drwyadl a gymerodd y Blynyddoedd Rhyfeddol i werthuso’i raglen rhianta wedi caniatáu iddo fod yn glir iawn o ran yr hyn y mae’n deimlo sy’n gweithio neu ddim yn gweithio. Bydd mentor wedyn yn monitro ac yn gwerthuso’r modd y caiff y rhaglen ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd gyson ac effeithiol. Dr Bywater yw Dirprwy Gyfarwyddwr Canolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

‘there should be a standard set [of measures] used for parental mental health, child behaviour and parenting competencies or strategies. It is very difficult when you are doing systematic reviews to draw all the data together and carry out the meta-analyses when people have used different measures and have not all come up with the same method.’²⁹

34. Mae’r Pwyllgor yn teimlo y byddai defnyddio set safonol o fesurau i ganfod yr arfer gorau ac i ganiatáu gwneud cymariaethau ystyrlon rhwng rhaglenni yn gam cadarnhaol tuag at rannu’r arferion gorau yn effeithiol.

Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru’n cydweithio â Chanolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru er mwyn datblygu set safonol o fesurau i werthuso llwyddiant rhaglenni rhianta ar draws

²⁸ ROP, 2 Tachwedd 2010, paragraff 76

²⁹ ROP, 2 Tachwedd 2010, paragraff 111

Cymru. Dylid defnyddio mesurau o'r fath i ganfod yr arferion gorau ac i nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer canlyniadau gwariant yn y maes hwn. Ar ôl cytuno ar y canlyniadau dylai cyllidebu ar gyfer y dyfodol ddibynnu ar fodloni canlyniadau o'r fath.

Cymorth i deuluoedd ag anghenion gwahanol

Cymorth i dadau

35. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor y dylai'r ymagwedd tîm o amgylch y teulu y mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ei argymhell fod yn ddigon hyblyg i greu gwasanaeth cymorth i deuluoedd byd-eang sy'n gweld plant a'u teuluoedd yng nghyd-destun teulu.³⁰

36. Dylai ymagwedd gyfannol o'r fath allu adnabod angen holl aelodau'r teulu am gymorth, ond roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai rhaglenni rhianta fod yn allgáu tadau'n anfwriadol. Dywedodd Blynnyddoedd Rhyfeddol Cymru wrth y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o'r astudiaethau a wnaethant wedi eu cynnal gyda mamau, oherwydd mai hwy yw'r gofawr sylfaenol, ond caiff tadau eu gwahodd i'r grwpiau bob amser.³¹

37. Nododd Barnardo's Cymru;

'I think that it would be the case for all organisations – not just speaking on behalf of Barnardo's, but having heard what Action for Children and other organisations say – that we are still focused on Mothers predominantly.'³²

38. Gellid dadlau y bydd y sefyllfa'n parhau fel ag y mae tra bod cymorth rhianta'n cael ei dargedu ar gyfer mamau sydd, fel y tybir, â'r gofal sylfaenol, a bydd tadau'n parhau i fod, gan fwyaf, y tu hwnt i afael rhaglenni cymorth rhianta .

39. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor

'the challenge is that there is a single portal for these families to walk through, and the complicated professional relationships that are working in an area to deliver those more specialist interventions are there but they are worrying about the complexity, and this is all going on inside the box.'³³

³⁰ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 7

³¹ ROP, 2 Tachwedd 2010, paragraff 103

³² ROP, 2 Tachwedd 2010, paragraff 60

³³ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 50

40. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn teimlo mai'r her gyntaf yw sicrhau bod yr un porth yn hygyrch i'r holl rieni, gan gynnwys tadau, sydd angen cymorth.

41. Rhoddodd Tony Ivens, Plant yng Nghymru, ffigyrau moel i'r Pwyllgor ynghylch cymorth rhianta i dadau;

'Here in Cardiff, recent research for Flying Start revealed that only around 5% of their service users were fathers. This problem is further exacerbated by the occupational segregation which currently exists within the workforce. In excess of 95% of staff delivering parenting support are female.

'All too often the work is seen as somehow separate, projects will appoint a specific Dad's worker rather than seeing the work as part of their core business in terms of supporting parents.'³⁴

42. Mae'r Pwyllgor yn teimlo y dylid annog y ddau riant i gymryd rhan yn y rhaglenni rianta os ydynt am fod yn llwyddiannus. Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer cynnwys tadau yng ngwasanaethau'r blynyddoedd cynnar ac mae'r rhain wedi gweithredu fel ffordd bwerus o godi ymwybyddiaeth ymhlith staff,³⁵ ond mae'n amlwg bod rhagor o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod tadau'n cyfrif am gryn dipyn mwy na 5% o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn y dyfodol.

43. Dywedodd Bridget Roberts, Seicolegydd Plant gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a llefarydd ar ran y Blynyddoedd Rhyfeddol, wrth y Pwyllgor;

'If both partners attend the programme, there is at least a consistent approach and the children are receiving the same kind of principles at home, so the programme is more likely to be successful. There is, incidentally, an interesting programme in Blaenau Ffestiniog where a male leader delivers the programme through a kayaking club for fathers and their children, and he incorporates the Incredible Years principles into the kayaking club. That is successful.'³⁶

³⁴ CYP(3)-01-11 – Papur 4

³⁵ CYP(3)-01-11 – Papur 4

³⁶ ROP, 2 Tachwedd 2010, paragraff 108

44. Teimlai'r pwyllgor fod yr ymagwedd arloesol hon yn ddiddorol a hoffai weld rhaglenni o'r fath yn cael eu gwerthuso'n gywir a'r arfer da'n cael ei rannu.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cynnwys, mewn canllawiau cymorth rhianta yn y dyfodol, y gofyniad i staff gynnwys ymgysylltiad â thadau fel rhan o'u busnes craidd.

Cymorth i deuluoedd sydd â phlant neu rieni anabl

45. Mae'r Pwyllgor yn ei ystyried yn hanfodol bod teuluoedd sydd â rhieni neu blant anabl yn cael eu cefnogi yn y ffordd fwyaf priodol iddynt hwy. Dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Blant wrth y Pwyllgor, yn dilyn trafodaethau gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol;

'The three of us as Ministers are very concerned that what we have is a system that certainly introduces no barriers to access to support, but is also appropriate to the needs of each particular family.

'The Challenge is that there is a single portal for these families to walk through, and the complicated professional relationships that are working in an area to deliver those more specialised interventions are there but they are worrying about the complexity, and this is all going on inside the box.'³⁷

46. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymagwedd tîm o amgylch y teulu, ond fel y nodwyd gan Helen Mary Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor;

'the Committee would be particularly anxious...that we do not lose sight of parenting support for parents with disabled children. We heard that most conventional programmes were not really suitable for them and that their issues, for example, might be more about letting go and allowing their child to be independent as they reach teenage years, whereas for other parents it might be about how you curb a child's desire for independence. We would be very anxious to make sure that that good practice does not get lost.'³⁸

³⁷ ROP, 12 Hydref 2010, paragraffau 17 a 50

³⁸ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 53

47. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod dewis yn bwysig i'r rhan fwyaf o rieni plant ag anabledau. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor mai ym Mhowys;

'we offer a mixture of groups for parents of children with disabilities, but an awful lot of those parents also access mainstream groups. So, we offer a choice...We find that parents of children with disabilities welcome being able to go to mainstream groups because it starts to normalise some of the things that they are experiencing.'³⁹

48. Mae'r Pwyllgor wedi adrodd yn flaenorol ar bwysigrwydd cymorth i deuluoedd sydd â phlant neu rieni anabl.⁴⁰

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod mesurau i fonitro effeithiolrwydd cymorth rhianta i deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan anabled yn cael eu cynnwys yn y set o fesurau safonol a ddefnyddir i ganfod arfer da, fel y nodwyd yn Argymhelliad 3 yr adroddiad hwn

Cymorth i deidiau a neiniau

49. Gwnaed y Pwyllgor yn ymwybodol yn flaenorol o'r anawsterau sy'n wynebu teidiau a neiniau sy'n gofalu am wyrion ac wyresau o ran ceisio cymorth rhianta.⁴¹

50. Mae teidiau a neiniau'n aml yn darparu gofal plant angenrheidiol ar gyfer eu hwyrion a'u hwyresau, gan ganiatáu i'r rhieni ddychwelyd i'r gwaith neu i hyfforddiant. Mae'n eithaf rhesymol felly y dylai cymorth rhianta fod ar gael iddynt hwy, ac wedi'i deilwra ar gyfer eu hanghenion.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cynnwys, mewn canllawiau yn y dyfodol, y gofyniad y dylai cymorth rhianta fod ar gael i deidiau a neiniau sy'n chwarae rhan sylweddol neu'r brif ran o ran gofalu am eu hwyrion a'u hwyresau, a'i fod wedi'i deilwra ar gyfer eu hanghenion.

³⁹ ROP, 16 Tachwedd 2010, paragraff 118

⁴⁰ Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 'Darparu Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu', Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tachwedd 2010

⁴¹ CYP(3) PAP18 - NSPCC, rhan 6.0

Cymorth i holl rieni

Cymorth gydag ethos Cymreig

51. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor fod ethos Cymreig cyfrannol o rianta cadarnhaol yn ganolog.⁴² Aeth ymlaen i ddisgrifio diben bwriadol Teuluoedd yn Gyntaf;

‘The whole intention of Families First is that there will be no gaps so that, whatever it is that is preventing a family from moving forward, that is holding them back, we deliver to that family the appropriate form of support without stigma and that people in Wales would get used to the idea that this is the way we treat families in Wales, that this is the way things are done in Welsh communities and that it is just part of the normal way in which we support the raising of our children.’⁴³

52. Mae’r Pwyllgor yn croesawu’r ymrwymiad hwn. Yn ei adroddiad cyntaf ar rianta, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2009, nododd y Pwyllgor ‘nad yw cymdeithas ym Mhrydain yn gwerthfawrogi rhianta cymaint ag y dylai. O ganlyniad, mae’n bosibl y caiff cyllid rhaglenni cymorth i rieni gan lywodraeth leol a llywodraeth ganolog ei dylanwadu gan ddiwylliant o flaenoriaeth isel a roddir i rianta yn y DU.’⁴⁴ Gallai gweledigaeth y Dirprwy Weinidog y dylid darparu cymorth priodol i deuluoedd yng Nghymru heb stigma na bylchau arwain at gydnabyddiaeth ehangach bod rhianta’n flaenoriaeth yng Nghymru.

Stigma

53. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor y dylid derbyn nad yw’n fwy anarferol cael cymorth rhianta nac ydyw i gael ymweliad gan ymwelydd iechyd, er mwyn osgoi’r stigma sydd ynghlwm â chymorth rhianta.⁴⁵

54. Dywedodd John Sayce, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Barnardo’s Cymru, wrth y Pwyllgor fod angen darparu gwasanaeth byd-eang er mwyn rhoi cymorth rhianta heb stigma. Awgrymodd hefyd bod cynnig

⁴² ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 70

⁴³ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 23

⁴⁴ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ‘Rhianta yng Nghymru a’r Cynllun Gweithredu Rhianta’, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mai 2009

⁴⁵ ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 60

gwasanaeth byd-eang mewn modd heb stigma, cyn iddynt gyrraedd 10 neu 11 oed , yn hanfodol.⁴⁶

55. Tynnodd Tania Hayward, Cydgysylltydd Rhianta Blaenau Gwent, sylw'r Pwyllgor hefyd at y ffaith y gall yr enwau a roddir ar raglenni rhianta leihau stigma. Nododd nad yw rhaglenni rhianta'n cael eu hysbysebu ym Mlaenau Gwent;

'as 'parenting' programmes. We mention things like 'the Incredible Years programme', which we talked about earlier, and programmes such as 'Getting on with your child' and 'Less shouting - more co-operation', and, in the run up to Christmas, we will do a Christmas stress busting programme.'⁴⁷

56. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r symudiad syml a rhad i enwi rhaglenni rhianta mewn modd sydd â llai o stigma ynghlwm â hwy, ond mae'n ailadrodd y pryderon a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn bod Llywodraeth Cymru'n berygl o roi stigma ar rieni nad ydynt yn byw mewn tlodi drwy gysylltu Teuluoedd yn Gyntaf â'r Bwrdd Rhaglen Tlodi Plant.

Cyllid ar gyfer ymyrryd yn gynnar

57. Dywedodd Shelly Davies, Rheolwr Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Powys, wrth y Pwyllgor na ddylid ystyried arian ar gyfer gwasanaethau byd-eang fel enillion hawdd, a;

'It is important to recognise that, as we try to push families down the tiers to make sure that we are meeting their needs at the lowest level possible, we need a universal infrastructure to be able to do it. Otherwise, we will end up with very targeted and stigmatised services that some parents cannot access. To support that early intervention and prevention, we must have tier 1 and tier 2 investment and infrastructure.'⁴⁸

58. Mae'n rhaid i'r gost o ddarparu cymorth rhianta gynnwys cost hyfforddi staff. Dywedodd y Blynnyddoedd Rhyfeddol wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig darparu rhaglen rianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dywedodd Bridget Roberts, Seicolegydd Plant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, wrth y Pwyllgor;

⁴⁶ ROP, 12 Tachwedd 2010, paragraff 83

⁴⁷ ROP, 16 Tachwedd 2010, paragraff 155

⁴⁸ ROP, 16 Tachwedd 2010, paragraff 130

‘We need to make sure that we are delivering Incredible Years and that we are delivering it in the best way possible. The three-day training is just the start of it. There needs to be a lot of supervision and consultation that follows it to make sure that we are delivering it in the best way that we can.’⁴⁹

59. Fodd bynnag, dywedodd Plant yng Nghymru wrth y Pwyllgor, er;

‘It is probably not an exaggeration to say that [the] skills of the facilitator are of more importance than the content of any given course or programme...there is increasing evidence that training budgets are one of the first areas to be cut during the current financial climate.’⁵⁰

60. Mae’r Pwyllgor yn deall bod yn rhaid i lywodraethau cenedlaethol a lleol wneud penderfyniadau ariannol anodd er mwyn darparu gwasanaethau hanfodol gyda chyllidebau llawer llai. Fodd bynnag, mae hyfforddiant yn rhan hanfodol o ddarparu cymorth rhianta. Dylid gwneud unrhyw arbedion mewn cyllidebau hyfforddi drwy gydweithio a darparu mewn modd arloesol yn hytrach na chymryd y farn bod atal hyfforddiant yn ffordd hawdd o arbed arian heb effeithio ar wasanaethau rheng flaen.

Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod cymorth rhianta sydd ar gael yn fyd-eang, ac sy’n cael ei gyflenwi gan staff sydd wedi’u hyfforddi’n briodol, yn cael ei gydnabod fel gwasanaeth hanfodol i deuluoedd a allai, fel arall, gael eu hesgyn i fyny haenau angen. Gall ymyrraeth a chymorth cynnar leihau’r angen am gymorth drud yn uwch i fyny’r haenau ac, os yw’n hygyrch i holl rieni, bydd yn lleihau’r stigma ac yn gwneud rhyw gyfraniad tuag at greu cymorth gydag ethos Cymru gyfan. Dylai canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnwys disgwyliad clir bod ymyrraeth gynnar yn cael ei ddarparu cyn gynted â phosibl ar gyfer teuluoedd sydd mewn perygl o esgyn i fyny haenau angen.

⁴⁹ ROP, 2 Tachwedd 2010, paragraff 140

⁵⁰ CYP(3)-01-11 – Papur 4

Rhianta cadarnhaol

61. Dylai hyrwyddo disgyblaeth gadarnhaol, ddi-drais fod yn ganolbwynt holl raglenni rhianta yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hawliau plant a phobl ifanc, fel y nodwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) ac mae wedi hyrwyddo disgyblaeth ddi-drais yn frwd ers peth amser.

62. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymagwedd hon yn fawr iawn ac mae'n edrych ymlaen at ganlyniad llwyddiannus i'r trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y pen draw, mewn perthynas â diogelu plant yn gyfreithiol rhag disgyblaeth dreisgar.

63. Os yw hyrwyddo disgyblaeth ddi-drais ar gyfer plant am fod yn llwyddiannus, mae'n bwysig darparu dewisiadau eraill ar gyfer rhieni, ar wahân i daro'u plant. Mae'r Pwyllgor felly'n ailadrodd yr angen am raglenni rhianta sydd ar gael yn fyd-eang i alluogi rhieni i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddisgyblu'u plant mewn ffordd ddi-drais.

64. Ni fydd angen cymorth ar bob rhiant ac ni fydd pob rhiant yn dymuno cael cymorth gan raglen cymorth rhianta. I rai, bydd cymorth ad-hoc Ymwelydd Iechyd neu weithiwr proffesiynol arall yn ddigon i sicrhau eu bod yn mabwysiadu dull cadarnhaol o rianta. Fodd bynnag, yn 2008, dywedodd yr ymgyrch 'Sdim Curo Plant' wrth y Pwyllgor;

'Professionals, such as Health Visitors may also promote positive parenting but this is not universally the case. Some professionals may be ambivalent about smacking and therefore not give a consistent or pro-active message to parents about the importance of positive and non-violent approaches to discipline.'⁵¹

65. Yn 2010, dywedodd Plant yng Nghymru wrth y Pwyllgor nad yw'r neges yn cael ei chyfleu'n gyson eto. Dywedodd Tony Ivens o Plant yng Nghymru, wrth y Pwyllgor;

'I also think that there is a group of what I could perhaps describe as enlightened parents at the top, who buy into this because they believe in it. However, there is a great group of parents in the middle and they are the parents whom I think we

⁵¹ CYP(3)-PAP-20 – 'Sdim Curo Plant!

are not getting through to...we need to raise the profile and ensure that that message is getting out there.’⁵²

66. Mae rôl i’r holl weithwyr proffesiynol sy’n dod i gysylltiad â theuluoedd, hyrwyddo rhianta cadarnhaol a chyfeirio teuluoedd at gymorth rhianta, pan fydd angen. Mae athrawon a meddygon teulu, er enghraifft, yn debygol o ddod i gysylltiad â theuluoedd pan fyddant yn is i lawr ar yr haenau angen ac maent mewn sefyllfa dda i ganfod yr angen am gymorth buan. Er mwyn i ymyrraeth o’r fath weithio, mae’n hanfodol nad oes stigma ynghlwm â chymorth rhianta a’i fod ar gael yn fyd-eang, fel y trafodwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol sy’n dod i gysylltiad â theuluoedd yn ymwybodol o’r cymorth rhianta sydd ar gael, a’u bod yn deall manteision rhianta cadarnhaol a hawl plentyn i gael ei ddiogelu rhag pob math o ddisgyblaeth dreisgar.

⁵² ROP, 12 Hydref 2010, paragraff 86

Tystion

Darparodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiad llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home.htm>

12 Hydref 2010

Huw Lewis AC	Y Dirprwy Weinidog dros Blant, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Huw Maguire	Pennaeth y Gangen Cymorth i Deuluoedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Martin Swain	Pennaeth y Gangen Rhaglenni Plant a Theuluoedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Lynne Hill	Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru
Tony Ivans	Swyddog Datblygu Tadolaeth, Plant yng Nghymru

2 Tachwedd 2010

Dr Tracey Bywater	Dirprwy Gyfarwyddwr, Canolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru
Bridget Roberts	Seicolegydd Plant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
John Sayce	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Barnardo's Cymru

16 Tachwedd 2010

Dr Chris Llewelyn	Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Shelly Davies	Rheolwr Partneriaeth, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Powys
Tania Hayward	Cydgysylltydd Rhianta, Blaenau Gwent, yn cynrychioli'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc

Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn ar http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home/bus-committees-third-cyp-inquiry/cyp_3__responses_received_.htm

Sefydliad

Judy Hutchings, Athro Seicoleg Clinigol, Cyfarwyddwr Canolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru	Canolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru	PAP 01 PAP 1a PAP 2 AWE 01
Dr Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth, CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	PAP 03 AWE 05
Tim Ruscoe Swyddog Datblygu, Cyswllt â'r Cynulliad a Chyfranogiad	Barnardo's Cymru	PAP 04
Gail Bennett Cydgysylltydd Strategaeth Rhianta	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint	PAP 05
Paul Apreda, Rheolwr Datblygu Cenedlaethol	Families Need Fathers (FNF) Cymru	PAP 06
Lucy Akhtar Swyddog Datblygu (Rhianta)	Plant yng Nghymru	PAP 07 AWE 03
Huw Lewis AC, Y Dirprwy Weinidog dros Blant	Llywodraeth Cymru	PAP 08 AWE 04
Edwina Hart, Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasnaethau Cymdeithasol	Llywodraeth Cymru	AWE 02